**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

27 Tachwedd 2023

Annwyl Julie,

Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 / Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023, / Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffosydd (Cosbau Sifil) (Cymru) 2023

Rwy'n ysgrifennu mewn cysylltiad â Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 , Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023 ,a Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffosydd (Cosbau Sifil) (Cymru) 2023

Fe wyddoch ein bod wedi ystyried pob un o'r tri offeryn statudol drafft yn ein cyfarfod ar 20 Tachwedd 2023, ac yna trafodwyd ymatebion Llywodraeth Cymru i'n pwyntiau adrodd yn ein cyfarfod heddiw.

Yn gyntaf, byddwch yn ymwybodol ein bod wedi codi pryderon eisoes, lle nodir camgymeriadau mewn offerynnau statudol sy'n destun cymeradwyaeth y Senedd, rhaid hysbysu'r Senedd am yr hyn a fydd yn cael ei gywiro ar ôl i Aelodau o'r Senedd bleidleisio ond cyn i'r offeryn gael ei wneud.

Croesewir ymatebion Llywodraeth Cymru i'n hadroddiadau ar yr offerynnau statudol hyn a'r tablau amgaeëdig sy'n nodi'r gwelliannau testunol a wneir o ganlyniad i'n gwaith craffu. Diolchwn i'r Llywodraeth am ymateb yn gadarnhaol i'n pryderon.

Mae un mater sy'n berthnasol i'r tri offeryn sy'n ymwneud yn fras â'r gair Cymraeg a ddefnyddir ar gyfer "determine" neu "determining" ac "establishing" y credwn y mae angen ei ystyried ymhellach.

Yn ymateb Llywodraeth Cymru i'n pedwerydd pwynt technegol yn ein hadroddiad ar y Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023, mae'n nodi "Yn yr Atodlen, ym mharagraff 11(1) bydd "ganfyddir" yn cael ei ddileu". O ganlyniad, credwn y bydd testun Cymraeg y Rheoliadau hyn yn defnyddio "bennir" fel y cyfieithiad ar gyfer "determine" ym mharagraff 11(1) o'r Atodlen.

Fodd bynnag, yn yr ymatebion a gawsom i bwyntiau adrodd tebyg iawn yn ein hadroddiadau ar Orchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffosydd (Cosbau Sifil) (Cymru) 2023 a Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023, dadleuir mai "ganfyddir" yn hytrach na "bennir" yw'r cyfieithiad priodol ar gyfer "determine" ym mharagraff 11(1) o'r Atodlen a pharagraff 11(1) o Atodlen 2 yn y drefn honno.

Felly, rydym yn pryderu bod gwrthddywediad posibl o ran y dewis priodol o gyfieithu Cymraeg ar gyfer y term "determine" pan fo'n digwydd yn y darpariaethau cyfatebol ym mharagraff 11(1) o'r Atodlenni i'r offerynnau statudol hyn.

Yn ogystal, yn yr ymateb i'n seithfed pwynt technegol yn ein hadroddiad ar y Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023 mae'n datgan bod Llywodraeth Cymru yn "fodlon mai'r gair "bennu" yw'r cyfieithiad cywir o "determinig" ac "establishing" ym mharagraffau 25(3)(c) a 26(c) o'r Atodlen i'r Rheoliadau hynny". Fodd bynnag, ein dealltwriaeth ni yw nad yw'r gair "bennu" yn ymddangos yn nhestun Cymraeg y paragraffau hynny, felly nid yw'n ymddangos bod yr ymateb yn mynd i'r afael â'r pwynt adrodd. Ar ben hynny, heb ddiwygiadau i'r testun yn y Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023, credwn y bydd hyn yn arwain at wahanol eiriau Cymraeg yn cael eu defnyddio mewn darpariaethau cyfatebol ar draws y tri offeryn statudol, a allai beri amheuaeth ynghylch a fwriedir i'r darpariaethau hyn gael yr un effaith ai peidio.

Buaswn yn ddiolchgar pe baech yn mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn ac yn darparu eglurder i Aelodau o'r Senedd yn ystod y ddadl ar y Rheoliadau hyn, y bwriedir ei chynnal yfory.

Buaswn hefyd yn croesawu ymateb ysgrifenedig manwl cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd